

Aelod o Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Pecyn Gwybodaeth - Hydref 2024



Cynnwys

- 1. Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
- 2. Cefndir - Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**
- 3. Rôl Aelod o'r Bwrdd Taliadau Annibynnol**
- 4. Manyleb y Person**
- 5. Telerau penodi**
- 6. Sut i wneud cais**
- 7. Y Broses Ddethol**

1. Croeso

Diolch am eich diddordeb yn rôl Aelod o Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ('y Bwrdd').

Mae'r Bwrdd yn gorff annibynnol statudol. Ei nod yw sicrhau proses agored a thryloyw ar gyfer pennu cyflogau Aelodau o'r Senedd a'u staff, ac adnoddau ariannol eraill. Nodir y rhain yn fanwl ym Mhenderfyniad y Bwrdd. Ei nod yw galluogi Aelodau i wneud eu gwaith yn effeithiol, gyda gwerth am arian i bobl Cymru. Nid yw'r Bwrdd yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd na rheolaeth y Senedd na Chomisiwn y Senedd.

Mae hwn yn gyfnod arbennig o ddiddorol i fod yn ymuno â'r Bwrdd wrth i'r Senedd baratoi i weithredu o dan system etholiadol wahanol ar ôl Etholiad Cyffredinol nesaf Cymru ym mis Mai 2026. Mae'r Bwrdd yn paratoi Penderfyniad diwygiedig ar gyfer y Seithfed Senedd drwy ei bum adolygiad thematig sydd ar y gweill, a bydd angen iddo barhau i adolygu'r Penderfyniad dros ei gyfnod o bum mlynedd nesaf.

Mae adolygiadau thematig y Bwrdd yn cwmpasu amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys cyflogau Aelodau a Gweinidogion, cyflogau a graddfeydd cyflog staff cymorth, cymorth personol i'r Aelodau, a chymorth i grwpiau gwleidyddol. Mae'n rhaid i'r Bwrdd ystyried y cynnydd yn y dyfodol yn nifer yr Aelodau o 60 i 96, system etholiadol a ffiniau etholaethol newydd, a newidiadau yn y modd y gellir trefnu busnes y Senedd yn y dyfodol. Mae'n gyfnod o waith tyngedfennol i'r Bwrdd felly.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd a phedwar aelod. Gellir penodi aelodau'r Bwrdd am hyd at ddau gyfnod o 5 mlynedd. Rwy'n rhagweld y bydd tair swydd wag o fewn y 12 mis nesaf. Mae swydd wag wedi codi ar unwaith yn dilyn ymddiswyddiad y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Hanson o'r Fflint, sydd wedi derbyn swydd Gweinidog yn Llywodraeth y DU. Bydd dau aelod arall yn cwblhau eu hail gyfnod o bum mlynedd ym mis Medi 2025, a fydd felly yn creu swyddi gwag eraill. Bydd y recriwtio hwn hefyd yn fodd i lenwi unrhyw swyddi gwag eraill ar y Bwrdd a all godi yn ystod y cyfnod recriwtio hwn ac am hyd at ddeuddeg mis ar ôl i'r broses benodi ddod i ben.

Wrth chwilio am aelodau newydd ar gyfer y Bwrdd, y nod yw sicrhau bod y Bwrdd, yn ei gyfanrwydd, yn cynnwys aelodau ag amrywiaeth dda o sgiliau, sy'n dod o amrywiaeth o gefndiroedd. Ar gyfer y swydd wag bresennol, rydym yn chwilio am aelod o'r Bwrdd sydd â phrofiad gwleidyddol fel cynwleidydd etholedig.

Mae'r rhain yn swyddi sy'n ysgogi, mewn amgylchedd heriol ond hynod wobrwyl. Mae'r penderfyniadau y mae'r Bwrdd yn eu gwneud yn sensitif, ac ar adegau maent yn denu diddordeb cyhoeddus helaeth. Mae'r Bwrdd yn chwarae rhan hanfodol wrth gynnal ffydd y cyhoedd yn ein

system ddemocrataidd. Mae'n bwysig inni ddod o hyd i unigolion eithriadol i ymgymryd â'r rolau hyn er mwyn cynnal hyder yr Aelodau, eu staff a'r cyhoedd.

Rydym yn gwahodd ceisiadau gan unigolion sy'n dod ag amrywiaeth eang o sgiliau, profiadau, a safbwyntiau, sy'n adlewyrchu amrywiaeth cymdeithas yng Nghymru. Os ydych chi'n credu eich bod chi'n meddu ar y sgiliau a'r profiad ar gyfer y rôl hon, rwy'n edrych ymlaen at gael eich cais.

Yn gywir



Manon Antoniazzi

Manon Antoniazzi

Prif Weithredwr y Comisiwn a Chlerc y Senedd

2. Cefndir - Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Mae Senedd Cymru wrth wraidd democratiaeth a gwleidyddiaeth yng Nghymru. Y Senedd yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Sefydlodd **Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010** Fwrdd Taliadau Annibynnol i wneud penderfyniadau ynghylch pob agwedd ar gymorth ariannol ar gyfer Aelodau o'r Senedd. Amcanion statudol y Bwrdd yw:

- sicrhau bod yr Aelodau'n cael lefel o dâl sy'n adlewyrchu cymhlethdod a phwysigrwydd eu gwaith fel Aelodau, ac nad yw, ar sail ariannol, yn rhwystro unrhyw un rhag ceisio cael ei ethol;
- darparu adnoddau digonol i'r Aelodau i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau fel Aelodau; a
- gwneud yn siŵr bod arian cyhoeddus yn cael ei wario mewn ffordd sy'n sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder.

Mae cyfres o egwyddorion a ddiffiniwyd yn glir, ac a nodwyd gan y Bwrdd, yn sail i'w waith:

- dylai'r cymorth ariannol a'r taliadau i'r Aelodau gefnogi diben strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Haelodau;
- mae'n rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru; a
- rhaid i'r system cymorth ariannol i'r Aelodau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy ac yn gynhwysol, a rhaid iddi gynnig gwerth am arian i drethdalwyr.

3. Rôl Aelodau o'r Bwrdd Taliadau Annibynnol

Rôl y Bwrdd yw penderfynu ynghylch:

- taliadau i Aelodau o'r Senedd (cyflogau a phensiynau);
- taliadau ychwanegol i ddeiliaid swyddi, er enghraifft, y Llywydd, y Dirprwy Lywydd, Comisiynwyr y Senedd, arweinwyr y gwrthbleidiau a chadeiryddion pwyllgorau;
- taliadau i aelodau Llywodraeth Cymru (y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, Dirprwy Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol);
- cymorth ariannol i grwpiau'r pleidiau a gynrychiolir yn y Senedd;

- trefniadau ar gyfer cymorth staff Aelodau o'r Senedd, gan gynnwys eu cyflogau; a
- phob agwedd arall ar y cymorth ariannol sydd ar gael i'r Aelodau, fel costau swyddfa a llety.

Mae'r Mesur yn pennu'n benodol annibyniaeth y Bwrdd ar unrhyw ddylanwad gan y Senedd neu Gomisiwn y Senedd wrth arfer ei swyddogaethau. Mae penderfyniadau'r Bwrdd yn derfynol ac nid ydynt yn amodol ar gadarnhad na chymeradwyaeth gan Gomisiwn y Senedd na Senedd Cymru ac nid yw'n atebol i'r Senedd mewn perthynas â'i benderfyniadau.

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd ymgynghori ag Aelodau ac eraill yr effeithir arnynt cyn gwneud ei benderfyniadau, cyn belled ag y bo modd. Mae hefyd yn ofynnol iddo weithredu mewn modd agored a thryloyw. Bydd yn atebol o ran y ffordd y mae'n defnyddio adnoddau ar gyfer ei weithgareddau ei hun, drwy ei adroddiad blynyddol, Mae'r Bwrdd yn ceisio sicrwydd ynghylch ei effeithiolrwydd fel Bwrdd drwy adolygiadau effeithiolrwydd cyfnodol a gaiff eu cynnal yn annibynnol.

Cefnogir y Bwrdd gan ysgrifenyddiaeth a arweinir gan glerc, a ddarperir gan Gomisiwn y Senedd. Bydd aelodau newydd y Bwrdd yn cael eu cefnogi drwy raglen gynefino. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am [waith y Bwrdd a'i aelodau presennol](#).

Y Fonesig Jane Roberts - aelod o'r Bwrdd Taliadau Annibynnol ers 2015.



Ar ôl gweld yr hysbyseb am aelodaeth o'r Bwrdd Taliadau bron i ddeng mlynedd yn ôl, gwnes gais am un o'r swyddi, yn teimlo'n ansicr a fyddai fy nghefnidir braidd yn gymysg yn cyd-fynd â'r gofynion. Er fy mod wedi cael amrywiaeth o brofiadau mewn rolau anweithredol, gan gynnwys dal swydd wleidyddol fel arweinydd cyngor, ac argymell fframwaith cenedlaethol ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr, roedd wedi bod ar lefel lywodraethu wahanol i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y pryd.

Ers hynny mae wedi bod yn daith hynod ddiddorol dros ddeng mlynedd bron – i fod yn sylwedydd agos ar esblygiad y Cynulliad i'r Senedd, wrth i bwerau gael eu datganoli fwyfwy i Gymru, ac i weithio gyda fy nghydweithwyr o gefndiroedd gwahanol iawn ar y Bwrdd. Ym mis Mai 2026, bydd Senedd fwy, gydag Aelodau'n cael eu hethol drwy system wahanol, a byddant yn gweithredu mewn ffordd ychydig yn wahanol. Cyfnod heriol ond mor ddiddorol!

Cewch eich sicrhau nad ymarfer technocrataidd yn unig yw'r gwaith dan sylw. Mae'r Bwrdd yn gweithio i'r tair egwyddor allweddol a grybwyllwyd uchod. Mae'n gyfuniad cyfoethog o feddwl strategol i fod yn glir ynglŷn â'r hyn sydd ei angen i gefnogi Aelodau o'r Senedd yn well yn eu rôl, a thrwy hynny gefnogi democratiaeth yng Nghymru, yn ogystal â'r angen i ddeall y manylion pan fo angen.

Rwyf wedi canfod bod fy nghydweithwyr ar y Bwrdd ac yn y Comisiwn yn cefnogi'r Bwrdd yn ddi-ffael a hynny mewn modd cymwynasgar, cyfunol a medrus iawn. Er ei fod yn fusnes difrifol wrth gwrs, mae rhai eiliadau ysgafn hefyd. Mae'r cyfle yn un rwy'n wir yn ei argymell.

4. Manyleb y Person

Mae'r adran hon yn nodi'r wybodaeth, y profiad a'r cymwyseddau personol hanfodol a geisir ar gyfer aelodau o'r Bwrdd Taliadau.

Dylai ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth eu bod yn meddu ar y profiad perthnasol i gyflawni'r rôl a'r cyfrifoldebau. Bydd angen i ymgeiswyr ddangos y meini prawf isod yn eu cais:

- yr hygredded, y presenoldeb a'r gonestrwydd personol sydd eu hangen i sicrhau yr enillir ffydd a pharch y cyhoedd ac Aelodau o'r Senedd ar draws y Senedd yn gyfan;
- dull gweithredu sy'n annibynnol, yn deg, yn realistig ac yn gadarn;
- doethineb eithriadol wrth ymdrin â materion sensitif neu uchel eu proffil;
- y gallu i wneud argymhellion cadarn ar sail gwaith dadansoddi.
- y gallu i gymhwyso dirnadaeth strategol a phrofiad byw i amrywiaeth o faterion sensitif a chymhleth;
- sgiliau gwyb o ran cyfathrebu a gweithio mewn tîm;
- dealltwriaeth drylwyr o waith cyrff seneddol a ffyrdd amrywiol o weithio Aelodau unigol, a'r cyd-destun cyfansoddiadol newidiol yng Nghymru a'r DU;
- profiad o fywyd cyhoeddus a dealltwriaeth drylwyr o'r materion sy'n gysylltiedig â'r ddadl gyhoeddus ynglŷn â safonau mewn bywyd cyhoeddus, ac o weithio yn unol ag **Egwyddorion Nolan**;
- gwerthfawrogiad o bwysigrwydd yr amgylchedd o gydraddoldeb, cynaliadwyedd, dwyieithrwydd ac amrywiaeth y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio ynddo;

At hynny, disgwylir i ymgeiswyr allu cyflwyno tystiolaeth am un neu ragor o'r gofynion canlynol:

- profiad gwleidyddol fel cyn wleidydd etholedig;
- profiad seneddol drwy fod wedi gweithredu ar lefel uwch mewn rôl berthnasol;
- profiad o fywyd cyhoeddus yng Nghymru - naill ai'n uniongyrchol neu drwy fod wedi gweithredu ar lefel arwain uwch mewn rôl berthnasol;

- gwybodaeth a phrofiad penodol o waith adnoddau dynol, taliadau, pensiynau neu faterion cysylltiedig, yn enwedig o safbwynt cyflogau yn y sector cyhoeddus, a chan gynnwys profiad o gyrff adolygu cyflogau.
- profiad a chymwysterau archwilio, profiad a chymwysterau cyfreithiol a phrofiad a chymwysterau llywodraethu;
- Cyfathrebu, ymgysylltu;
- profiad o waith academiaidd, ymchwil neu bolisi cyhoeddus mewn maes perthnasol.

Dymunol:

Mae'r Bwrdd yn croesawu'r cyfle i gynyddu ei allu i weithio'n ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae'n croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â sgiliau Cymraeg. Bydd disgwyl i bob ymgeisydd ddangos ymrwymiad i'r iaith a'r diwylliant.

5. Telerau'r penodiad

Penodiadau cyhoeddus a wneir gan Gomisiwn Senedd Cymru yw rolau'r Bwrdd Taliadau Annibynnol.

Penodir aelodau'r Bwrdd am gyfnod penodol o bum mlynedd. Gellir ailbenodi aelodau'r Bwrdd am un cyfnod arall yn unig. Uchafswm hyd y gwasanaeth yw deng mlynedd.

Mae'r Bwrdd, fel corff cyhoeddus, yn denu cryn ddi-ddordeb cyhoeddus. Mae'n arbennig o bwysig sicrhau nad oes gwrthdaro buddiannau posibl rhwng eich chyfrifoldebau cyfredol (neu swyddi blaenorol) a chyfrifoldebau'r penodiad hwn. Disgwylir i aelodau'r Bwrdd fod yn ofalus wrth ymgymryd â chyfrifoldebau newydd a allai wrthdaro â buddiannau'r Bwrdd. Byddai unrhyw benodiadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn cael eu hystyried yn wrthdaro buddiannau.

Rhaid i Aelodau hysbysu Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd cyn derbyn unrhyw benodiad newydd a gynigir. Byddai derbyn penodiad sy'n gwrthdaro â rôl aelod o'r Bwrdd yn golygu y byddai'r penodiad yn agored i gael ei derfynu.

Cymhwysedd: Gweithgareddau Gwleidyddol ac Allanol

Nid yw'r bobl ganlynol yn gymwys i fod yn aelodau o'r Bwrdd:

- Aelodau o'r Senedd neu ymgeiswyr ar gyfer eu hethol yn Aelodau o'r Senedd;
- rhywun y mae ei enw wedi ymddangos ar restr o ymgeiswyr a gyflwynwyd i swyddog canlyniadau rhanbarthol ar gyfer etholiad cyffredinol y Senedd a gynhaliwyd ar 6 Mai 2021;
- aelod o Dŷ'r Cyffredin, Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon neu Senedd Ewrop;
- aelodau o staff y Senedd neu staff Llywodraeth Cymru a phobl a gaiff eu cyflogi gan Aelodau o'r Senedd neu grŵp o Aelodau o'r Senedd at ddibenion cynorthwyo Aelodau o'r Senedd i gyflawni swyddogaethau Aelod o'r Senedd;
- y Cwnsler Cyffredinol;
- Archwilydd Cyffredinol Cymru;
- Comisiynydd Safonau y Senedd;
- Aelodau o Bwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol Comisiwn y Senedd,
- Cynghorydd sy'n annibynnol ar Gomisiwn y Senedd.
- Unigolyn sy'n cyflawni swydd Cyfarwyddwr Anweithredol Llywodraeth Cymru.
- Person sydd wedi gwasanaethu fel aelod o'r Bwrdd am ddau dymor o'r blaen.

Fel y crybwyllwyd uchod, byddai unrhyw berson sy'n dal swydd a benodir gan Weinidogion Cymru yn cael ei ystyried yn wrthdaro buddiannau ac felly byddai angen iddo ymddiswyddo o'i swydd pe câi ei benodi i'r Bwrdd.

Tâl Cydnabyddiaeth

Bydd aelodau'r Bwrdd yn cael cyfradd gydnabyddiaeth o £310 y diwrnod a bydd y Cadeirydd yn cael £400 y diwrnod. Mae taliadau'n daladwy ar gyfer pob math o weithgarwch a gyflawnir ar ran y Bwrdd, nid cyfarfodydd ffurfiol yn unig.

Bydd costau teithio a chynhaliaeth priodol ac angenrheidiol, yn unol â pholisi Comisiwn y Senedd, yn cael eu had-dalu a chaiff crynodeb ei gyhoeddi yn Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Taliadau Annibynnol ynghyd â manylion y ffioedd a hawlir.

Ymrwymiad o ran amser

Mae nifer y cyfarfodydd a'r llwyth gwaith yn debygol o amrywio yn ystod cyfnod pum mlynedd y Senedd. Yn nodweddiadol, mae'r Bwrdd yn cyfarfod chwe gwaith y flwyddyn. Fel eithriad, rhwng mis Ionawr a mis Medi 2025, bydd y Bwrdd yn cyfarfod wyth gwaith i baratoi ei Benderfyniad ar gyfer y Senedd nesaf.

Amcangyfrifir y bydd angen rhwng 12 a 18 diwrnod y flwyddyn ar gyfartaledd gan aelodau'r Bwrdd. Mae ein profiad hyd yma yn awgrymu y byddai'r ymrwymiad amser yn fwy beichus yn y ddwy flynedd cyn etholiad cyffredinol Cymru.

Statws

Mae Aelodau Annibynnol o'r Bwrdd Taliadau yn ddeiliaid swyddi ac nid ydynt yn cael eu cyflogi gan Gomisiwn y Senedd.

Lleoliad

Cynhelir y cyfarfodydd yn swyddfeydd y Senedd ym Mae Caerdydd fel arfer neu yn rhithwir ar Teams.

6. Y broses ymgeisio

- Gallwch wneud cais drwy gyflwyno CV, a datganiad ategol sy'n amlinellu'r hyn wnaeth eich cymell i wneud cais am y rôl, a sut rydych yn bodloni manyleb y person (dim rhagor na 2 ochr A4 o hyd). Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi sylw i'r gofynion allweddol a nodir ym manyleb y person.
- At hynny, bydd angen i ymgeiswyr hefyd ddatgan eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a nodir yn y ddogfen hon. Bydd angen i chi lenwi ffurflen Cymhwysedd: Gweithgareddau Gwleidyddol ac Allanol gyda'ch cais i ganiatáu i wiriadau perthnasol gael eu cynnal.
- Rhowch fanylion dau ganolwr (yn ddelfrydol, dylai un ohonynt fod yn gyflogwr presennol) – dim ond gyda'ch caniatâd chi y byddwn yn mynd at ganolwyr, ac os byddwch yn cyrraedd y rhestr fer.
- Llenwch y ffurflen monitro Cyfle Cyfartal pan fyddwch yn llwytho eich manylion. Rydym yn awyddus i sicrhau bod ein holl swyddi yn hygyrch i bob aelod o'r gymuned a byddwn yn defnyddio'r data hyn i:
fonitro ein cynnydd wrth wneud hynny.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyflwyno eich cais erbyn y dyddiad cau a nodir isod. Dylech anfon y cais at fizza.islam@LHH.com

Os hoffech gael trafodaeth gyfrinachol ac anffurfiol am y rôl hon, cysylltwch â'n partneriaid recriwtio, LHH Penna, yn uniongyrchol drwy ffonio **+44 (0)141 220 6460** neu drwy **anfon e-bost at fizza.islam@LHH.com**

Amserlen

Dyddiad cau	Hanner nos, ddydd Sul 01 Rhagfyr 2024
Y rhestr fer	Wythnos yn dechrau 09 Rhagfyr 2024
Cyfweliadau	Wythnos yn dechrau 13 Ionawr 2025

7. Y Broses Ddethol

Mae gan y Bwrdd un swydd wag ar unwaith a bydd ganddo ddwy swydd wag yn y dyfodol pan ddaw dau aelod o'r panel i ddiwedd eu cyfnod.

Rydym yn rhagweld y bydd un penodiad yn dechrau cyn gynted â phosibl (ym mis Ionawr 2025 mae'n debyg), a bydd y ddau benodiad arall yn dechrau ym mis Medi 2025.

Yn unol â pharagraffau 1-4 o Atodlen 2 i Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, ar ôl ystyried materion perthnasol, rwyf o'r farn bod aelodau presennol y Bwrdd, y byddai eu cyfnod cyntaf fel arall yn dod i ben ym mis Medi 2025, gan gynnwys y Gadeirydd, yn gymwys i gael eu penodi am ail gyfnod, ac nad oes angen iddynt gyflwyno cais.

Pan fydd y broses recriwtio bresennol wedi dod i ben, mae'r Prif Weithredwr a'r Clerc yn bwriadu rhoi gwybod i Gomisiwn y Senedd -

- (i) enw'r person sydd, yn unol â'r trefniadau hyn, i'w benodi'n Gadeirydd;
- (ii) enw'r person sydd wedi'i ddewis i gymryd y swydd wag bresennol fel aelod o'r Bwrdd;
- (iii) enwau personau sydd wedi'u dewis, yn unol â'r trefniadau hyn, i fod yn aelodau o'r Bwrdd pan fydd lleoedd gwag yn codi ym mis Medi 2025; ac
- (iv) enwau aelodau presennol y Bwrdd a fydd yn cael eu penodi am ail gyfnod.

Mae'n ofynnol i Gomisiwn y Senedd benodi'n Gadeirydd, ac aelodau o'r Bwrdd (yn ôl y gofyn) y rhai y mae'r Prif Weithredwr a'r Clerc wedi nodi eu henwau iddynt.

Bydd y panel dethol yn asesu CVs ymgeiswyr a datganiadau Ategol i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf orau ar gyfer y rôl a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad.

Caiff y panel ei gadeirio gan Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, a bydd hefyd yn cynnwys cynrychiolydd allanol neu gynrychiolydd annibynnol ac aelod o blith Cyngorwyr Annibynnol y Comisiwn.

Bydd y Panel yn rhoi sylw dyledus i'r egwyddor y dylai pawb gael cyfle cyfartal.

Bydd rhestr wrth gefn yn cael ei chadw am 12 mis.

Amrywiaeth a Chynhwysiant

Bydd y broses recriwtio'n cael ei chynnal yn unol ag egwyddorion cyfle cyfartal. Ystyr hyn yw y dylai pawb gael yr un cyfleoedd ar sail eu gallu, eu cymwysterau a'u haddasrwydd ar gyfer y rôl.

Rydym, felly, yn croesawu ceisiadau o bob rhan o'r gymuned, waeth beth fo'u hoedran, rhywedd, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, ffydd neu anabledd, o bob cefndir a gyda llawer o sgiliau, profiad a safbwyntiau gwahanol. Rydym yn arbennig o awyddus i annog ceisiadau gan bobl anabl a phobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

Gwneir penodiadau ar sail teilyngdod, yn dilyn proses deg a thryloyw.

Hyderus o ran Anabledd

Rydym yn falch o weithredu o dan y Cynllun Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd lle rydym yn gwarantu cyfweiliad i ymgeiswyr anabl os ydynt yn bodloni'r gofynion hanfodol ar gyfer y rôl. Ystyr 'meini prawf gofynnol' yw bod yn rhaid i chi ddarparu tystiolaeth i ni yn eich cais sy'n dangos eich bod yn bodloni'n gyffredinol y lefel cymhwysedd ar gyfer y rôl ac unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiad a ddiffinnir yn hanfodol.

Cysylltwch â ni am sgwrs os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon. Gallwn hefyd drafod pa addasiadau yr hoffech iddynt gael eu gwneud petaech yn cael eich penodi i'ch galluogi i gyfranogi'n llawn. Anfonwch neges e-bost at swyddi@senedd.cymru cyn gynted â phosibl a byddwn yn cysylltu â chi i drafod gofynion ac i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Diogelwch a Fetio

Bydd y penodiadau yn amodol ar Gliriad Diogelwch Cenedlaethol.

